

# EICH CANLLAW I ARDRETHI ANNOMESTIG 2016-17

## Ardrethi Annomestig

Mae'r adrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio yn cael eu talu i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol ac awdurdodau'r heddlu. Mae eich cyngor a'ch awdurdod heddlu yn defnyddio'u cyfran o incwm ardrethi wedi'u hailddosbarthu, ynghyd ag incwm gan rai sy'n talu ardrethi annomestig, y grant cynnal refeniw a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

## Newid y Gwerth Ardrethol

Efallai bydd y gwerth ardrethol yn newid os yw'r swyddog prasio'n credo bod amgylchiadau'r annedd wedi newid. Hefyd gall y trethdalwr (ac eraill penodol sydd â budd yn yr annedd) gynnig newid mewn gwerth, mewn amgylchiadau penodol. Os nad yw'r trethdalwr a'r Swyddog Prasio yn cytuno i'r prisiant cyn pen 3 mis o wneud y cynnig, bydd y mater yn cael ei gyfeirio fel apêl at Dribiwnlys Prasio.

**Cewch ragor o wybodaeth am sut i gynnig newid mewn gwerth ardrethol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio.**

## Gwerth Ardrethol

Mae gwerth ardrethol yr annedd annomestig wedi'i bennu yn y rhan fwyaf o achosion gan swyddog prasio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae pob annedd annomestig yn cael ei hailbrisio bob pum mlynedd. O 1 Ebrill 2010 ymlaen, mae gwerth ardrethol annedd yn cynrychioli'i gwerth i'w rhentu ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2008. Ar gyfer anheddau cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn gysylltiedig â'r rhan annomestig yn unig. Mae gwerth pob annedd o ran pa ardrethi sy'n daladwy i'ch awdurdod i'w gweld ar y **rhestr ardrethu lleol**. Mae modd gweld y rhestr ardrethu drwy gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae mwy o wybodaeth ar gael o'r swyddfa brisio leol neu ar y wefan **[www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk)**

## Lluosydd Ardrethu Annomestig Cenedlaethol

Dyma'r gyfradd yn y bunt a lusoir gyda'r gwerth ardrethol i roi bil ardrethi blynyddol eiddo. Mae'r lluosydd, a bennir bob blwyddyn gan y Cynulliad, yr un fath dros Gymru gyfan, ac ni all godi'n fwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu, ac eithrio mewn blwyddyn ailbrisio.

## Ardrethu Eiddo Gwag

Mae'n bosibl y bydd angen i berchnogion eiddo annomestig gwag dalu ardrethi eiddo gwag sydd gyfwerth â 100% o'r atebolrwydd arferol. Bydd yr atebolrwydd yn dechrau wedi i'r eiddo fod yn wag am 3 mis neu yn achos ffatri neu warws, wedi i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio rhag ardrethi eiddo gwag.

## Cynigion ac Apeliadau

Mae gwybodaeth am ym mha amgylchiadau y mae modd cynnig newid mewn gwerth ardrethol a sut mae modd gwneud cynnig felly ar gael gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Cewch ragor o wybodaeth am y trefniadau apelio newydd gan Gyngor Sir y Fflint neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Tîm Trethi Lleol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio – cyfeiriad eu gwefan **[www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk)**

## Rhyddhad Elusennol a Rhyddhad Dewisol

Mae gan elusennau hawl i ryddhad rhag ardrethi unrhyw annedd annomestig a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. Rhoddir rhyddhad o 80% o'r bil ardrethi. Mae gan awdurdodau bilio'r dewis i ddileu'r 20% sy'n weddill o fil elusen ar annedd felly. Hefyd gall roi rhyddhad ar annedd a feddiannir gan gyrrff arbennig nad ydyn nhw wedi'u sefydlu nac yn gweithredu er elw.

Yn ychwanegol at hyn, ac o 1 Ebrill 2004 ymlaen, bydd rhyddhad ardrethi gorfodol o 80% yn cael ei roi i glybiau chwaraeon amatur cymunedol, ar yr amod bod y clybiau wedi'u diffinio ac wedi'u cofrestru felly gyda Chyllid y Wlad. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy: -

**Gwefan:** **[www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk)**

**Post:** HMRC Charities

CASC Unit

St Johns House

Merton Road

Liverpool L75 1BB

## Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae'r manylion llawn gan gynnwys y meini prawf ar gymhwystra, yr eithriadau a'r gofynion gweithdrefnol ar gael gan yr awdurdod bilio.

## GWYBODAETH AM GYLLIDEB 2016/2017

Gwir Gost		Gwariant	Incwm	Gwir Gost
2015-16 £000' oedd	Gwasanaethau	2016-17 £000' oedd	2016-17 £000' oedd	2016-17 £000' oedd
2,281	Prif Weithredwr	3,236	(32)	3,204
11,968	Cymuned a Menter	59,517	(47,489)	12,028
96,138	Addysg a Ieuenctid	115,603	(18,816)	96,787
9,147	Llywodraethu	9,356	(1,196)	8,160
10,551	Newid Sefydliadol	24,791	(16,536)	8,255
5,123	Pobl ac Adnoddau	4,570	(251)	4,319
4,659	Cynllunio a'r Amgylchedd	8,573	(3,595)	4,978
59,293	Gwasanaethau Cymdeithasol	71,787	(12,954)	58,833
27,497	Strydwedd a Chludiant	38,743	(11,732)	27,011
<b>226,657</b>		<b>336,176</b>	<b>(112,601)</b>	<b>223,575</b>
13,679	Cyfrif Canolog Buddsoddi a Benthyciadau			15,223
6,467	Cyllid Canolog			8,967
7,245	Cyrff sy'n codi trethi			7,237
(1,590)	Aildaliadau Canolog			(1,590)
(1,479)	Grantiau'r Cynulliad			-
(1,000)	Cyfraniad at / (Gostyngiad Mewn) balansau			(1,429)
23,322	Cyfanswm Gwasanaethau Canolog			28,408
<b>249,979</b>	<b>CYFANSWM GWASANAETHAU</b>			<b>251,983</b>

### O ble y daw'r arian

2015-16 £000' oedd	Ffynhonnell	2016-17 £000' oedd
186,419	Grant Cynnal Refeniw	184,74
63,560	Wedi'l dalu gan Drethdalwyr	67,240
<b>249,979</b>	<b>CYFANSWM YR ARIANNU</b>	<b>251,983</b>
5,769	GWEDDILLION (dygwyd ymlaen)	5,769
5,769	GWEDILLION (cariwyd ymlaen)	5,769

### Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn

	Balans Amcangyfrif dig 31/3/2016 £000'au	Symudiadau arfaethedig yn 2016/17 £000'au	Balans Amcangyfrif dig 31/3/2017 £000s
Refeniw Cyffredinol Wrth Gefn	10,148	-	10,148
Arian Clustnodedig Wrth Gefn	16,288	(5,401)	10,887
Arian Wrth Gefn Ysgolion	974	(593)	381
Arian Wrth Gefn CRT	1,513	(785)	728
	<b>28,923</b>	<b>(6,779)</b>	<b>22,144</b>

### Gwariant Cyfalaf ac Ariannu 2016/17

	2016-17 £000' oedd
Gwariant	
Cronfa Gyffredinol	21,143
Tai Cyhoeddus	25,933
<b>CYFANSWM GWARIANT</b>	<b>47,076</b>
Arianwyd gan:	
Benthyca	23,671
Derbynebaw Cyfalaf	0
Grantiau, Cyfraniadau Lwfans Gwaith Trwsio Mawr	12,905
Adnoddau Eraill y Cyngor	10,500
<b>CYFANSWM ARIANNU</b>	<b>47,076</b>

### Asessiad Gwariant Safanol

	£000
Asesiad o Wariant Safonol LIC ar gyfer y Cyngor yw:	253,731
Y Gyllideb wirioneddol a gymeradwywyd gan y Cyngor yw:	251,983